# Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd David Isaac 2015 – 2016

Cafodd y Cynghorydd David Isaac ei urddo'n Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 20 Mai 2015. Bu'n cynrychioli Rhanbarth Etholiadol Penydarren ers 2012. Mae David yn byw ym Mhenydarren â'i wraig Deborah a'i blant, Caitlin, Dafydd, Ffion a'i lysfeibion Brennig a Rhys.

Ganwyd David Gareth Isaac ar 03/03/1962 i Beatrice a Brynmor, yr hynaf o dri mab.

Mynychodd David Ysgol Gynradd Gwaunfarren ac Ysgol Gyfun Penydre. Ar ôl gadael Penydre, dechreuodd weithio yn archfarchnad Asda, Dowlais Top, ble y treuliodd 5 mlynedd hapus. Ar ôl gadael Asda, gweithiodd yng nghanolfan cartref Leo's fel rheolwr y warws.

Dechreuodd David yrfa hir ac amrywiol â'r Gwasanaeth Ambiwlans, ac roedd ymhlith y cyntaf o lond llaw o barafeddygon i gymhwyso ym Merthyr Tudful ym 1992.

Fel Dinesydd Cyntaf Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae dyletswyddau David yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor a chynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd yn croesawu ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol ac yn mynychu a chefnogi digwyddiadau a drefnwyd gan bobl leol a sefydliadau lleol.

Yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian i'w elusennau lleol dewisol, sef Cymorth Canser Merthyr Tudful/Cancer Aid Merthyr Tydfil ac Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at y gwaith ardderchog mae'r elusennau hyn wedi ymgymryd ag e yn ein Bwrdeistref Sirol ac yn parhau i wneud. Caiff yr holl arian a godir ei ddefnyddio'n unig er budd ein cymunedau, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio'n agos at y ddwy elusen yn ystod ein blwyddyn faerol.

**Roedd cyfanswm yr arian a godwyd ar gyfer Apêl Elusen y Maer 2015-2016 dros £21,000.00.**